# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Dileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal |
| **Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | Y Tîm Gwella Canlyniadau i Blant, Galluogi Pobl |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio |
| **Pennaeth yr Is-adran/USC (enw):** | Alistair Davey |
| **Y Gweinidog â chyfrifoldeb:** | Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol |
| **Dyddiad Dechrau:** | Hydref 2021 |

# ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Trosolwg**

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o ymrwymiadau allweddol sy'n ymwneud â gweledigaeth newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant:

- Rydym am weld llai o blant a phobl ifanc yn ymuno â'r system ofal, drwy ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i deuluoedd sy'n wynebu cyfnodau anodd.
- O ran y plant sydd mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos i'w cartref er mwyn iddynt allu parhau i fod yn rhan o'u cymuned. Mae'n golygu rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgysylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well. Rydym am i'r gwasanaethau hyn fod yn lleol, gael eu cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol.
- Rydym am i'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddechrau byw'n annibynnol pan fyddant yn barod, ac i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys wyth ymrwymiad, sydd gyda'i gilydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein gweledigaeth i drawsnewid Gwasanaethau Plant yn sylfaenol. Bydd cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn achosi newid ar draws y system gyfan ac yn cyd-fynd â'n Cynllun Plant a Phob Ifanc. Bydd yr ymrwymiadau hyn a'r Cynllun yn cael eu cyflawni dros dymor cyfan y Senedd. Dyma'r ymrwymiadau:

- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd.
- Ystyried newidiadau chwyldroadol i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.
- Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
- Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a phobl ifanc.
- Cefnogi ein cynllun cenedlaethol Maethu Cymru.

Mae'r ymrwymiad i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' yn rhan allweddol o'r agenda chwyldroadol hon.

<u>Nod</u>

Mae cael gwared ar ddarpariaeth er elw o ofal yn ymwneud â darpariaeth sy'n seiliedig ar werthoedd ac anghenion. Mae'n ymwneud â newid yn sylfaenol sut y darperir

gwasanaethau i blant a'u teuluoedd fel rhan o rwydwaith o wasanaethau lleol, cymunedol sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles y bobl ifanc.

Y nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant sy'n derbyn gofal – yn dechrau gyda gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu – yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; a hyrwyddo datblygiad proffesiynol pellach i'r rheini sy'n darparu gofal.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Mae Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care hefyd wedi ymgyrchu ar y mater. Roedd yn argymhelliad gan y Comisiynydd blaenorol yn ei hadroddiadau blynyddol a chafodd y mater ei gynnwys gan Voices from Care yn ymrwymiad yn ei faniffesto ar gyfer etholiad y Senedd.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant y mae'n rhaid i awdurdod lleol ofalu amdanynt oherwydd eu hamgylchiadau. Nid yw'r farchnad yn gweithio'n effeithiol nac yn diwallu anghenion llawer o blant. Mae hyn yn golygu y bydd llety preswyl, diogel a gofal maeth plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael eu darparu gan sefydliadau sector cyhoeddus, elusennol neu nid-er-elw.

Nid ydym yn hyrwyddo disodli darparwyr er elw â darparwyr tebyg, ond yn ceisio ailgydbwyso siâp a maint y ddarpariaeth – gan gynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth, fel rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau plant, i'w wneud yn seiliedig ar anghenion, yn integredig, yn lleol ac yn fforddiadwy.

## Deddfwriaeth Sylfaenol

Bydd deddfwriaeth sylfaenol yn darparu sail statudol i'r Rhaglen Dileu Elw ("y Rhaglen") ac yn helpu i ddatblygu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli a'u cynllunio'n lleol, yn ogystal â bod yn atebol yn lleol; sy'n gwella'r profiad gofal a'r canlyniadau i bobl ifanc, ac sy'n galluogi buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau o'r fath.

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar gynigion deddfwriaethol sylfaenol ei gynnal dros gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cynigwyd bod y darpariaethau canlynol yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth:

- diffiniad o 'nid-er-elw' ar gyfer gofalu am blant sy'n derbyn gofal.
- darpariaeth sy'n sicrhau mai dim ond darparwyr nid-er-elw sy'n cael cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu gwasanaeth maethu yng Nghymru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- gofyniad y bydd yn rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru gael statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen.
- gofyniad y bydd yn rhaid i unrhyw ddarparwyr 'er elw' presennol newid i statws nid-er-elw a chofrestru gydag AGC erbyn 1 Ebrill 2027.

- pŵer i gyhoeddi canllawiau i gefnogi gweithrediad y newidiadau deddfwriaethol megis cyfeirio at fodelau sefydliadol priodol neu eu disgrifio.

Yn ogystal, roedd dau faes arall y gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau arnynt:

- y potensial i osod cyfyngiad ar awdurdodau lleol i gomisiynu lleoliadau gofal i blant a phobl ifanc gan sefydliadau nid-er-elw yn unig (ochr yn ochr â'r cynnig i sicrhau mai dim ond sefydliadau nid-er-elw sy'n cael cofrestru gydag AGC), ac yn unol ag amserlenni priodol.
- sut i sicrhau nad yw'r polisi'n cael ei danseilio gan arferion sy'n mynd yn groes i'w ysbryd a'i fwriad, gan drechu pwrpas y newidiadau deddfwriaethol i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal (fel codi ffioedd gormodol gan riant-gwmnïau gwasanaethau nid-er-elw, a allai fod yn gyfystyr â dileu elw trwy ddulliau eraill).

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion hynny. Mae negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad ynghylch effaith y Rhaglen hefyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Mae gwaith canlynol wedi'i wneud, ac mae'n parhau i fynd rhagddo:

- Helpu'r awdurdodau lleol i fodelu a rhag-weld yn well ofynion ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau nifer y plant mewn gofal;
- Cefnogi sefydliadau nid-er-elw presennol sydd am ehangu eu darpariaeth;
- Annog y gwaith o greu darpariaeth nid-er-elw newydd;
- Cefnogi darparwyr preifat sydd am drosglwyddo i fodelau gofal nid-er-elw.

## Y Bwrdd Rhaglen Dileu Elw

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i gyflawni'r Rhaglen ac mae Bwrdd Rhaglen Dileu Elw aml-asiantaethol wedi'i sefydlu. Cadeirydd y Bwrdd yw Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, ac mae'r aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau yn y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus gan weithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru. Nod y Bwrdd yw datblygu ac adeiladu ein darpariaeth gyhoeddus ac nid-er-elw o ofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan wella canlyniadau ar er cyfer, yn ogystal â sicrhau bod budd pennaf a hawliau plant wrth wraidd y penderfyniadau a wneir, a'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sy'n dilyn.

Mae'r aelodau yn cyfarfod bob chwarter er mwyn ystyried tystiolaeth a datblygu cynigion ar y cyd er mwyn rhoi'r Rhaglen ar waith. Mae'r Cadeirydd yn atebol am y gwaith o gyflawni'r Rhaglen ac mae'n gyfrifol am y penderfyniadau a roddir gerbron Gweinidogion. Mae aelodau o'r Bwrdd yn cynnwys:

- Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru (Cadeirydd)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Consortiwm Comisiynu Plant Cymru

- Cynghorydd i Lywodraeth Cymru ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a’r Prif Swyddog Meddygol
- Maethu Cymru
- Y Rhwydwaith Maethu
- Plant yng Nghymru
- Cymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu Cymru
- Cymdeithas Cartrefi Plant
- Cymdeithas Genedlaethol Darparwyr Maethu
- Cartrefi Gofal a Darparwyr Maethu annibynnol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Voices from Care
- Tros Gynnal Plant Cymru
- Unsain
- Undeb y GMB
- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- Swyddogion Llywodraeth Cymru

## Y cyd-destun a’r sefyllfa bresennol

Nifer y plant sy’n derbyn gofal

Yn ôl Stats Cymru roedd 7,210 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru ar 31 Mawrth 2023, cynnydd o 55 (2%) ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd o 116.3 fesul 10,000 o’r boblogaeth o dan 18 oed. Mae’r nifer wedi cynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, o 5,760 yn 2013, neu 91 fesul 10,000.

O'r garfan bresennol o blant sy'n derbyn gofal, roedd 26% wedi byw mewn dau leoliad neu fwy yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y mwyafrif (69%) mewn lleoliadau maeth. Roedd 14% wedi’u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldebau rhiant ac roedd 10% mewn lleoliadau preswyl.

Nifer y Gwasanaethau

Dangosodd cais pwrpasol am ddata a gedwir gan AGC ym mis Medi 2023 fod 295 o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Roedd 245 o’r gwasanaethau er elw, ac roedd 38 o wasanaethau naill ai’n rhai o’r awdurdod lleol neu nid-er-elw. Yn ôl AGC, mae’r cynnydd yn y galw am ofal preswyl wedi mwy na dyblu ers 2012. Roedd 45 o wasanaethau maethu, ac roedd 19 o’r rhain yn wasanaethau preifat, 4 gwasanaeth yn rhai nid-er-elw, a 22 yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol.

Y Trefniadau Presennol

Mae adran 75[1] o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau llety digonol i ddiwallu anghenion eu poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Mae Adran 81[2] yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau'n cael eu gwneud o fewn eu hardal eu hunain. Mae rhan 6 o'r Cod Ymarfer, sef Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya,[3] yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried y manteision o gael nifer o ddarparwyr, yn cynnig ystod o leoliadau lletya i ddiwallu anghenion gwahanol.

Mae awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth o leoliadau i letya plant sy'n derbyn gofal:

- Gyda pherthynas ("lleoliad gyda pherthynas")
- Gyda rhieni maeth
- Mewn cartref gofal i blant
- Mewn lleoliadau preswyl eraill megis llety â chymorth, ysgol neu, mewn nifer bach o achosion, uned ddiogel
- Gyda darpar fabwysiadwr (o dan amgylchiadau penodol)

Darperir lleoliadau ar hyn o bryd gan yr awdurdod lleol drwy ei wasanaethau mewnol neu gan ddarparwyr yn y sector preifat a'r Trydydd sector. Yng Nghymru, mae'n ofynnol o dan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)2016, bod bob darparwr gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu, yn cofrestru gyda Llywodraeth Cymru (yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru).

Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ynghyd â gweld anghenion mwy cymhleth wedi arwain at ddefnyddio gwasanaethau gofal fwyfwy. Mae hyn yn duedd hirdymor. Mae heriau sylweddol wedi wynebu awdurdodau lleol ac wedi effeithio ar blant a phobl ifanc.

Mae paru anghenion plant â lleoliadau priodol ar draws yr ystod o opsiynau megis maethu a chartrefi gofal, yn dod yn fwy anodd. Weithiau mae'n anodd i awdurdodau lleol ddod o hyd i leoliadau addas sy'n diwallu anghenion y plant. Gall hyn effeithio'n negyddol ar y dewis o leoliadau a pha mor barhaol a sefydlog ydynt ac, yn y pen draw, ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio darparwyr er elw fwyfwy i ateb y galw am leoliadau.

<u>Cystadleuaeth</u>: gan fod y galw yn fwy na'r cyflenwad, mae'r farchnad ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal plant, yn ffafriol i werthwyr ac mae hyn yn effeithio ar y prisiau a godir ar awdurdodau lleol. Mae'n arbennig o anodd dod o hyd i leoliadau a chael dewis o leoliadau sydd wir yn diwallu anghenion plant 11 oed a throsodd sydd ag anghenion cymhleth. Lansiodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd astudiaeth marchnad i'r cyflenwad o ofal cymdeithasol i blant yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mewn ymateb i

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/75/welsh
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/81/enacted/welsh
[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf

bryderon a godwyd gyda nhw ynghylch anawsterau wrth ddod o hyd i leoliadau priodol a'r prisiau a delir. Mae'r ddau ffactor hyn yn rhoi straen sylweddol ar gyllidebau awdurdodau lleol ac yn cyfyngu ar eu gallu i ariannu gweithgareddau pwysig eraill mewn gwasanaethau plant ac mewn meysydd eraill.

Gwnaeth adroddiad terfynol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddau ganfyddiad a oedd yn arbennig o berthnasol:

- Er bod maint y ddarpariaeth wedi bod yn cynyddu yng Nghymru, wedi'i hysgogi'n bennaf gan ddarparwyr er elw, nid yw hyn wedi bod yn effeithiol o ran lleihau'r anawsterau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ddod o hyd i leoliadau priodol, yn y lleoliadau cywir. Mae hyn yn golygu bod plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cymunedau sefydledig, neu mewn lleoliadau nad ydynt yn bodloni eu hanghenion.
- Mae prisiau ac elw'r darparwyr mwyaf yn sylweddol uwch nag y byddai'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn disgwyl iddynt fod mewn marchnad sy'n gweithredu'n dda.[4]

Mewn rhai ardaloedd roedd lefel yr elw a dynnwyd o'r gwasanaethau hyn yn uwch na 20% ar gyfer gofal preswyl plant ac yn agosáu at hyn ar gyfer maethu annibynnol. Mae hwn yn arian sy'n cael ei dynnu o wasanaethau plant y gellid ei ailgyfeirio i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau. Canfu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd fod proffidioldeb cartrefi plant yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y tair gwlad.

Bu adolygiad annibynnol o ofal cymdeithasol plant yn Lloegr hefyd dynnu sylw at bryderon am lefelau elw, ac argymhellodd y dylai llywodraeth y DU godi treth ffawdelw ar y 15 cartref preswyl plant er elw mwyaf a darparwyr maethu annibynnol. [5]

Nid yw'r gost i awdurdodau lleol wrth ddarparu eu lleoliadau cartref eu hunain i blant yn is na chost caffael lleoliadau gan ddarparwyr er elw, er gwaethaf lefelau amlwg o elw. Fodd bynnag, canfu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd “dystiolaeth ddangosol” y gallai awdurdodau lleol ddarparu rhai lleoliadau maethu yn rhatach na thrwy eu prynu gan asiantaethau maethu annibynnol. Yn ddiddorol iawn, canfu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mai'r prif ffactor sy'n sbarduno'r gwahaniaethau mewn costau rhwng

[4] Gweler paragraff 28 o grynodeb Cymru: “Ar gyfer y darparwyr cartrefi plant yn ein set ddata traws-Brydain, rydym wedi gweld elw gweithredol cyson o 22.6% ar gyfartaledd o 2016-20, gyda phrisiau cyfartalog yn cynyddu o £2,977 i £3,830 yr wythnos dros y cyfnod, sef cynnydd blynyddol cyfartalog o 3.5 %, ar ôl cyfrif am chwyddiant. Ym maes maethu, mae prisiau wedi bod yn gyson ar gyfartaledd o £820 yr wythnos, ac yn wir wedi gostwng mewn termau real, ond mae maint elw'r Asiantaethau Maethu Annibynnol mwyaf yn ymddangos yn gyson uchel ar gyfartaledd o 19.4%. O'r darparwyr yn ein set ddata ni, canfuom fod proffidioldeb y cartrefi plant yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y tair gwlad (rydym yn rhybuddio, fodd bynnag, fod hyn o sampl cymharol fach o'r darparwyr mwyaf yn unig). O'r darparwyr yn set ddata ein lefel asiantaeth ni, canfuom hefyd fod proffidioldeb y gwasanaethau maethu yng Nghymru yn agos iawn at y cyfartaledd ar draws y tair gwlad.”

[5] Independent review of children's social care - recommendation annexes (publishing.service.gov.uk) t.168

cartrefi plant awdurdodau lleol a chartrefi plant y sector er elw oedd cymhareb staff a chostau uwch yn narpariaeth awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â safbwynt yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nad yw’r farchnad gofal cymdeithasol yn gweithio’n dda. Mae Llywodraeth Cymru’n credu bod y cymhelliad elw yn rheswm allweddol dros aneffeithiolrwydd y farchnad ac mae effaith hynny ar y farchnad yn golygu nad yw’n addas i sicrhau gofal sy’n diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy’n agored i niwed.

Argaeledd: ledled Cymru nid oes cyflenwad digonol o leoliadau gofal preswyl a maeth i ddiwallu anghenion eang ein poblogaeth plant sy’n derbyn gofal. Gwnaeth adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd dynnu sylw at farchnad dameidiog, cymhleth a chamweithredol iawn sy’n golygu bod awdurdodau lleol sy’n gofalu am blant mewn sefyllfa wannach ac yn ei chael yn anodd cynllunio ar gyfer a darparu eu gofal preswyl a maeth eu hunain, gan gymryd pa leoliad bynnag sydd ar gael yn aml, hyd yn oed pan nad yw’n gwbl briodol ar gyfer anghenion y plentyn.

Er ein bod yn cydnabod bod lleoliadau i ffwrdd o gymunedau cartref yn angenrheidiol weithiau er lles y plentyn, mae angen ystyried yn ofalus fanteision ac effaith bosibl defnyddio lleoliadau o'r fath yn ehangach. Ble bynnag y bo modd, mae Llywodraeth Cymru am weld lleoliadau'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc a fydd yn cadw eu cysylltiadau â'u cymdogaethau a'u cymunedau lleol ac yn caniatáu cymaint o gysondeb yn eu bywydau â phosibl.

Mae cymhelliant i ddarparwyr er elw sefydlu cartrefi gofal mewn lleoedd lle mae’r gorbenion yn rhad, yn hytrach nag yn y lleoliadau lle mae’r angen mwyaf. Bu cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau sy’n cael eu gwneud mewn lleoliadau anghofrestredig o ystyried y diffyg digonolrwydd yn yr ystâd ddiogel a gwasanaethau sy’n cefnogi plant sydd â’r anghenion mwyaf ac, yn aml, anghenion lluosog a chymhleth. Mae hyn yn destun pryder i'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag ansawdd a phris, ac yn effeithio'n negyddol ar blant a phobl ifanc.

Symud lleoliad: mae sefydlogrwydd lleoliad i blant a phobl ifanc yn helpu i sicrhau’r amgylchedd a’r cyfle gorau posibl iddynt adfer, datblygu, ffynnu a gwneud cynnydd. Mae angen datblygu ac ehangu'r dewis sydd ar gael o leoliadau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion eang a chymhleth plant orau i helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y lleoliad cywir ar ddechrau ei daith.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd 669 o blant sy’n derbyn gofal a gafodd dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 52 o blant (8%) o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Roedd dwy ran o dair (66%) o'r plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2023 yn byw mewn lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol lle'r oeddent yn byw pan wnaethant ddechrau derbyn gofal. Roedd 27% o blant yn byw mewn lleoliadau y tu allan i'w hawdurdod lleol eu hunain ond yng Nghymru, ac roedd 7% pellach wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

Canfu dadansoddiad hydredol diweddar o ffynonellau data gweinyddol, mewn perthynas â threfniadau ar gontractau allanol, lleoliadau sefydlog mewn ardal leol a nodweddion plant mewn gofal yn Lloegr rhwng 2011 a 2022, fod rhoi gwaith er-elw ar gontract allanol yn gysylltiedig â mwy o leoliadau i ffwrdd o gartref y plentyn a chyda lleoliadau mwy ansefydlog, tymor byr.[6]

Yn ei hadroddiad *Pass the Parcel* yn 2019, nododd Comisiynydd Plant Cymru fod llawer o blant yn mynd i fyw mewn cartrefi plant sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau er elw, sy'n aml yn gweithredu mewn rhannau rhatach a llai 'dymunol' o'r wlad. Mae ei hadroddiad yn cynnwys tystiolaeth ansoddol berthnasol gan blant sydd â phrofiad o ofal am y ffordd y mae darpariaeth y tu allan i'r sir yn effeithio ar eu bywydau. Dywedodd y plant hynny eu bod yn teimlo'n ynysig a'u bod yn methu â gweld eu hanwyliaid, gan fod y pellteroedd teithio hir yn rhwystr i aelodau o'r teulu a fyddai fel arall yn dymuno ymweld.

## Manteision Posibl

Rydym yn rhag-weld y bydd y newidiadau rydym yn ceisio eu gwneud yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol yn fwy effeithiol, a bydd plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn amgylcheddau sy'n cyd-fynd yn agosach â'u hanghenion. Bydd hyn yn cefnogi lles a datblygiad cyffredinol plant sy'n derbyn gofal, gan arwain at well canlyniadau cymdeithasol, addysgol ac iechyd.

Bydd marchnad a reolir yn fwy effeithlon yn lleihau'r angen i leoli plant ymhell o'u cymunedau. Drwy wella prosesau cynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gall awdurdodau lleol sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael yn nes at gymunedau gwreiddiol y plant, a thrwy hynny sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd gwell y lleoliadau.

Bydd dod â gwasanaethau'n fewnol yn cefnogi dealltwriaeth sy'n cael ei harwain gan weithwyr cymdeithasol o batrymau mewn lleoliadau, a fydd yn galluogi dulliau o reoli capasiti'n rhagweithiol, a lleihau'r ras am leoliadau munud olaf a all arwain at baru is na'r safon a chostau uwch.

Bydd mwy o gyfle i ail-fuddsoddi cyllid yn y ddarpariaeth gofal nid-er-elw a'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cefnogi gwell cyflogau ac amodau, cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa gwell i staff a fydd, yn ei dro, yn arwain at well gofal i blant a phobl ifanc.

Byddai'r Rhaglen yn cael gwared ar y risg y gallai BBaChau gael eu caffael gan gwmnïau mawr sy'n cael eu gyrru gan elw yn y dyfodol, ac ni fyddai gan yr awdurdod lleol sy'n lleoli plant, na'r plant sy'n derbyn gofal o fewn yr asiantaeth honno,
reolaeth dros y penderfyniad hwnnw.

---

[6] For-profit outsourcing and its effects on placement stability and locality for children in care in England, 2011–2022: A longitudinal ecological analysis - ScienceDirect

Mantais arall posibl y Rhaglen yn y tymor hir fyddai arbedion cost. Nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd bod gofal maeth er elw yn ddrytach na darpariaeth fewnol. Mae costau gofal y tu allan i'r cartref wedi cynyddu'n aruthrol dros y degawd diwethaf. Rhan o'r ateb i ddelio â'r costau cynyddol hyn yw lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, ond bydd lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau drud hefyd yn helpu gyda hyn. Dangosodd adroddiad yr Awdurdod mai'r sbardun pennaf o ran y gwahaniaeth mewn costau rhwng cartrefi plant awdurdodau lleol a chartrefi plant yn y sector preifat oedd cymhareb staffio a chostau uwch o fewn darpariaethau awdurdodau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ymrwymiad hwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

**Risgiau Allweddol**

Cydnabyddir bod hwn yn ymrwymiad heriol ac yn un y bydd yn cymryd hyd tymor presennol y Senedd a thu hwnt i'w gyflawni'n llawn. Mae rhai risgiau allweddol sy'n gysylltiedig yn bennaf â'r gweithlu a digonolrwydd lleoliadau. Fodd bynnag, dylid gosod y rhain yng nghyd-destun yr heriau ehangach sy'n wynebu'r sector yn barod, yn enwedig y prinder lleoliadau, y nifer uchel o blant mewn gofal, yr argyfwng costau byw a'r pwysau sylweddol ar y gweithlu.

Bydd gweithredu'r Rhaglen yn gofyn am ddull gweithredu fesul cam, wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn osgoi ansefydlogi lleoliadau plant, ac mae trefniadau rheoli rhaglen gadarn i asesu effaith ac i liniaru yn erbyn risgiau wedi cael eu rhoi ar waith. Wrth roi'r diwygiadau arfaethedig ar waith, bydd Llywodraeth Cymru bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

## Atal

Prif nod darpariaeth maethu a chartrefi gofal plant yw darparu lleoliadau sefydlog i blant yn agos at eu cartrefi fel y gellir diwallu eu hanghenion gofal a chymorth, a chyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Y canlyniadau hyn, buddsoddi mewn gwasanaethau a symud y farchnad o blaid modelau gofal cyhoeddus/nid-er-elw yw'r prif yrwyr ar gyfer ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu hon.

Disgwyliwn y bydd y Rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad plant sy'n byw mewn gofal yng Nghymru. Bydd yn hybu datblygiad gwasanaethau lleol a gwasanaethau sy'n atebol. Bydd yn symud y farchnad gofal cymdeithasol o blaid darpariaeth gofal sector cyhoeddus a nid-er-elw a bydd yn creu sylfaen fwy o ddarparwyr ac yn sicrhau gwell gwerth cymdeithasol. Bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar yr hyn sydd ei angen yn hytrach na'r hyn sy'n broffidiol.

Mae plant fel arfer yn dod i ofal oherwydd cam-drin neu esgeulustod a byddant wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) neu ryw fath o drawma cynnar. Gall hyn arwain at broblemau ymlyniad, patrymau ymddygiad sy'n tarfu ar eraill neu anghenion therapiwtig, a all waethygu os nad yw'r plentyn yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd arno ei angen. Mae lleoliadau da yn darparu amgylchedd cefnogol lle mae plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd arnynt eu hangen i ffynnu. Ac mae

lleoliadau da yn rhai lle gall gweithgareddau ataliol ddigwydd sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ymddygiadau'n gwaethygu.

O ran effeithiau ar gydlyniant cymdeithasol a chymunedol, nod y Rhaglen yw sicrhau nad yw plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi oherwydd nad oes digon o leoliadau yn lleol. Mae hyn yn bwysig ar gyfer cynnal cysylltiadau â theulu, ffrindiau, addysg, a gwasanaethau cymorth eraill sy'n bwysig i les plant, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol ac eiriolwyr annibynnol. Mae hefyd yn bwysig bod ymdeimlad o berthyn a diwylliant yn cael eu cadw a'u parchu pan fydd penderfyniadau lleoli yn cael eu hystyried.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar wastraff neu ddefnydd adnoddau, allyriadau nac effeithiau ar ansawdd aer.

## Integreiddio

Fel y nodir ar dudalen 6, mae'r Rhaglen yn cysylltu ac yn cyfrannu at nifer o ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a Datganiad Llesiant y Rhaglen Lywodraethu[7].

Er mwyn cyflawni'r rhaglen drawsnewid ehangach hon, mae trefniadau llywodraethu wedi'u rhoi ar waith. Rydym wedi mabwysiadu dull tair haen i ddarparu'r cyfeiriad a'r gwaith craffu cywir i gyflawni ein nodau ac i sicrhau cysylltiadau ag agendâu polisi perthnasol eraill. Mae gan y strwythur dri grŵp allweddol:

i. **Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol** i oruchwylio'r Rhaglen Drawsnewid, gan ddarparu arweiniad a chyfeiriad gwleidyddol dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol
ii. **Grŵp Cyflawni Trawsnewid** i arwain y gwaith er mwyn bwrw ymlaen i gyflawni'r Rhaglen Drawsnewid erbyn 2026.
iii. **Bwrdd Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal** i ddarparu arbenigedd ychwanegol wrth i ni ystyried tystiolaeth, deddfu a datblygu rhaglenni ymarferol ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad hwn.

## Cydweithio a Chymryd rhan

Mae cynigion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i gefnogi gweithredu'r Rhaglen wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, fel bod ystod eang o safbwyntiau yn cael eu casglu a'u hystyried.

[7] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/6/4/1623936497/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant.pdf

Rydym yn parhau i wrando ar leisiau plant a phobl ifanc, gan ymateb i safbwyntiau a fynegir i Gomisiynydd Plant Cymru a Voices from Care. Ar 3 Rhagfyr 2022, cynhaliwyd yr uwchgynhadledd gyntaf ar brofiad o ofal rhwng Llywodraeth Cymru a phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Canlyniad y diwrnod oedd Datganiad, a luniwyd ar y cyd rhwng Gweinidogion a'r bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Cafodd y datganiad ei lofnodi ar 10 Mai 2023 gan y Prif Weinidog ar y pryd a rhai o'r bobl ifanc o'r Uwchgynhadledd a oedd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r Datganiad yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc wrth galon y broses o drawsnewid gwasanaethau plant. Mae'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyflawni ystod eang o newidiadau i'r system ofal bresennol, i alluogi dull 'plant yn gyntaf' ym mhopeth a wnawn ac i wneud yn siŵr bod popeth yn cael ei wneud i helpu plant a theuluoedd i aros gyda'i gilydd.

Trafodwyd cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn y Datganiad gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal mewn ail Uwchgynhadledd yng Ngogledd Cymru ym mis Hydref 2023 a'r drydedd Uwchgynhadledd a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2024. Wedi hynny, ailgadarnhaodd y cyn-Brif Weinidog a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol eu hymrwymiad i'r agenda hon drwy lofnodi'r Datganiad mewn digwyddiad ym mis Mehefin 2024.

Er mwyn meithrin ein dealltwriaeth o sut y gallwn ddatblygu'r ymrwymiad hwn ac i ddysgu o brofiad cenhedloedd eraill, mae swyddogion wedi cyfarfod ag amrywiaeth o randdeiliaid. Nodir y rhain yn adran 8.1.

Fel y nodwyd eisoes, mae Bwrdd Rhaglen amlasiantaethol wedi'i sefydlu i sicrhau dull traws-sector o gynllunio a gweithredu'r ymrwymiad hwn. Mae'n ofynnol i bob aelod weithio fel cynrychiolydd, gan sicrhau bod ystod lawn o safbwyntiau'n cael eu mynegi a'u hystyried.

Pwrpas y Bwrdd yw gweithio ar y cyd i ystyried tystiolaeth ac i roi cyngor ac arweiniad ar weithredu'r Rhaglen. Lle caiff risgiau eu hamlygu, mae'r rhain yn cael eu cynnwys ar Gofrestr Risg y Bwrdd Rhaglen sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod ym mhob cyfarfod a'i hadolygu'n gyson. Mae nifer o ffrydiau gwaith o dan y Bwrdd Rhaglen sy'n canolbwyntio ar y canlynol. Maent yn canolbwyntio ar nifer o faterion:

- Ehangu a Datblygu Darpariaeth Awdurdod Lleol/Rhanbarthol Newydd
- Ehangu a Datblygu Darpariaeth Nid-er-elw Newydd
- Trawsnewid Darpariaeth Sector Annibynnol/Preifat, a
- Chynllunio Pontio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Unigol

Yn ogystal, mae dau is-grŵp wedi'u sefydlu i ystyried y gweithlu gofal preswyl a lleoliadau sy'n gweithredu heb gael eu cofrestru. Mae gwaith ar y gweill i ailgyfansoddi'r ffrydiau gwaith hynny wrth inni symud i weithredu trefniadau deddfwriaethol pan fyddant wedi'u pasio.

## Effaith

Mae sylfaen dystiolaeth fach, ond sy’n tyfu, ynghylch darpariaeth er elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae’n cefnogi’r farn nad yw’r trefniadau presennol yng Nghymru (ac mewn rhannau eraill o’r DU) yn gweithio. Nid ydynt yn addas i greu system o ddarpariaeth gofal a chymorth sy’n diwallu anghenion ei phoblogaeth ac sy’n adlewyrchu’r galw cynyddol am ofal a chymorth, a’r cynnydd yn y gost am hynny.

Rydym wedi comisiynu sawl ddarn o waith (Alma Economics, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd) i adolygu y dystiolaeth sydd ar gael ac i geisio barn arbenigol o ran y manteision o gael ddileu darpariaeth er elw.

Cyfeiriwch hefyd at yr wybodaeth yn yr adrannau uchod.

### Costau ac Arbedion

Ceir rhagor o wybodaeth am y costau sy’n gysylltiedig â gweithredu’r ymrwymiad hwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

### Mecanwaith

Mae’r Rhaglen yn cael ei chynnal drwy ddarpariaethau ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru). Cafodd y Bil ei gyflwyno i’r Senedd ar 20 Mai 2024.

## 2.2 Hawliau Plant

Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gynnal (Atodiad A).

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Hyd yma (Gorffennaf 2024), mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau â'r canlynol:

- Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru
- Y (Cyn) Ddirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
- Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol
- Prif Weinidogion (blaenorol a phresennol)
- Cynghorwyr Arbennig i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a chyn Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â'i astudiaeth Gofal Cymdeithasol i Blant – y ddarpariaeth sector preifat i blant sy'n derbyn gofal
- Llywodraeth y DU
- Arolygiaeth Gofal Llywodraeth yr Alban
- Gweriniaeth Iwerddon – Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd
- Comisiynydd Plant Cymru
- Consortiwm Comisiynu Plant Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Cartrefi Plant
- Voices from Care
- Maethu Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Darparwyr Maethu
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cwmpas
- Alma Economics
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Anthony Collins LLP
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
- Darparwyr nid-er-elw a'u sefydliadau cynrychioliadol
- Darparwyr sector preifat/annibynnol a'u sefydliadau cynrychioliadol

Mae'r Bwrdd Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cynnwys cynrychiolaeth eang o bob rhan o'r sectorau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector gofal nid-er-elw a darparwyr cartrefi gofal plant a gwasanaethau maethu y sector er elw. Bydd y Bwrdd Rhaglen yn parhau i gael gwybodaeth ac adborth gan randdeiliaid drwy gydol y gwaith hwn.

Bu'r broses ymgynghori ffurfiol yn 2022 sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cyrraedd amrywiaeth o randdeiliaid eraill i rannu gwybodaeth am ein cynigion i gyflwyno deddfwriaeth i gefnogi'r rhaglen waith, ynghyd â chasglu adborth manwl ac adeiladol.

### 8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Bydd y newidiadau rydym yn ceisio eu gwneud yn sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy’n cael ei fuddsoddi yn y gwasanaethau cartrefi gofal i blant a’r gwasanaethau maethu yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; a hyrwyddo datblygiad proffesiynol pellach i’r rheini sy’n darparu gofal.

Mae cael gwared ar elw o ofal yn ymwneud â darpariaeth sy’n seiliedig ar werthoedd ac anghenion. Mae’n ymwneud â newid yn sylfaenol sut y darperir gwasanaethau i blant a’u teuluoedd fel rhan o rwydwaith o wasanaethau lleol, cymunedol sy’n diogelu ac yn hyrwyddo lles y bobl ifanc

Bydd y gwasanaethau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol yn fwy effeithiol, a bydd plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn amgylcheddau sy’n cyd-fynd yn agosach â’u hanghenion. Bydd hyn yn cefnogi lles a datblygiad cyffredinol plant sy’n derbyn gofal, gan arwain at ganlyniadau cymdeithasol, addysgol ac iechyd gwell a bydd yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol **o Gymru sy’n fwy cyfartal.**

Bydd marchnad a reolir yn fwy effeithlon yn lleihau’r angen i leoli plant ymhell o’u cymunedau. Drwy wella prosesau cynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gall awdurdodau lleol sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael yn nes at gymunedau gwreiddiol y plant, ac felly sicrhau mwy o sefydlogrwydd a pharhad i leoliadau.

Bydd dod â gwasanaethau’n fewnol yn cefnogi dealltwriaeth sy’n cael ei harwain gan weithwyr cymdeithasol o batrymau mewn lleoliadau, a fydd yn galluogi dulliau o reoli capasiti’n rhagweithiol, a lleihau’r ras am leoliadau munud olaf a all arwain at baru is na’r safon a chostau uwch.

Bydd mwy o gyfle i ail-fuddsoddi cyllid yn y ddarpariaeth gofal nid-er-elw a’r sector cyhoeddus, gan gynnwys cefnogi gwell cyflogau ac amodau, cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa gwell i staff a fydd, yn ei dro, yn arwain at well gofal i blant a phobl ifanc.

Er y bydd y Rhaglen yn darparu llawer o effeithiau cadarnhaol, mae’n bwysig sylweddoli y gallai fod rhai effeithiau negyddol yn y tymor byr y mae angen i Lywodraeth Cymru a’r Bwrdd Rhaglen eu hystyried a’u lliniaru. Mae meysydd o’r fath yn cynnwys y canlynol:

- dim digon o leoliadau i blant sy’n derbyn gofal yng Nghymru,
- efallai na fydd gan awdurdodau lleol yr arbenigedd i ysgwyddo cyfrifoldebau darpariaeth ‘er elw’ yng Nghymru gan fod llawer yn canolbwyntio eu harbenigedd ar gefnogi plant a phobl ifanc â phroblemau cymhleth.
- efallai na fydd llawer o sefydliadau yn newid eu statws i nid-er-elw ac felly byddant yn gorfod cau yng Nghymru (colli arbenigedd) neu ganolbwyntio ar gynyddu nifer eu cartrefi yn Lloegr.

- colli buddsoddiad sylweddol a ddarperir gan lawer o sefydliadau annibynnol yng Nghymru, neu ostyngiad ym maint y buddsoddiad hwnnw.
- gall waethygu'r argyfwng gweithlu gofal cymdeithasol presennol, gyda'r risg y gallai llawer o ofalwyr a staff ddewis gadael y sector – gan arwain at golli sgiliau a phrofiad arbenigol.
- gallai fod yn ddrud i fwrw ymlaen â'r polisi ac efallai y bydd angen buddsoddiad gan y sector cyhoeddus.

Gallai'r Rhaglen arwain at rai darparwyr er elw yn gadael y sector – darparwyr sydd wedi datblygu sgiliau a rhinweddau arbenigol dros nifer o flynyddoedd ac mae eu gwasanaethau'n cael eu canmol gan y rheoleiddiwr. Gallai hyn arwain at golli ansawdd ac amrywiaeth gofal i blant ag anghenion cymhleth ac amrywiol.

I darfu cyn lleied â phosibl ar fywydau plant mewn lleoliadau preswyl a gofal maeth presennol, bydd trefniadau pontio yn caniatáu i ddarparwr cofrestredig er elw o wasanaeth plant o dan gyfyngiad (darparwr etifeddol) barhau i weithredu ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym, yn amodol ar amodau a osodir gan reoliadau. Bydd gan Lywodraeth Cymru bŵer, a arferir drwy reoliadau, i ddod â chofrestriad darparwyr etifeddol i ben ar adeg briodol.

Byddwn hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau y gall y sector nid-er-elw gynnig ystod o wasanaethau ymatebol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

I gefnogi hyn, rydym wedi dyrannu £68 miliwn yn ychwanegol dros dair blynedd (2022-2025) i helpu awdurdodau lleol i feithrin capasiti mewnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl a maethu nid-er-elw. Bydd cymorth ariannol yn y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o gylchoedd cyllideb y dyfodol.

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn monitro cofrestr risg y rhaglen ac adroddiadau gwybodaeth am y farchnad yn barhaus, fel y gall liniaru yn erbyn y risgiau hyn yn y ffordd orau bosibl. Mae rhagor o fanylion am yr effeithiau wedi'u cynnwys drwy'r ddogfen hon.

### 8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Fel y nodir uchod, bydd effeithiau arfaethedig y cynnig hwn yn cyfrannu'n arbennig at y nodau llesiant canlynol:

- **Cymru lewyrchus** – effaith niwtral
- **Cymru gydnerth** – effaith niwtral
- **Cymru iachach – fel uchod (gweler Adrannau 1 a 2).** Drwy gefnogi lles a datblygiad cyffredinol plant sy'n derbyn gofal, gan **arwain at well canlyniadau cymdeithasol, addysgol ac iechyd**
- **Cymru sy'n fwy cyfartal fel uchod (gweler Adrannau 1 a 2)** Trwy leihau'r anghydraddoldebau a'r anfanteision a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal, sy'n aml

yn cael eu heffeithio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, camdriniaeth, esgeulustod neu drawma.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – **fel uchod (gweler Adran 3)** Trwy hyrwyddo datblygiad gwasanaethau lleol ac atebol sy'n parchu diwylliant, iaith a hunaniaeth plant sy'n derbyn gofal, ac sy'n eu galluogi i gael mynediad at ddiwylliant, treftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon a hamdden, a'u mwynhau
- **Cymru o gymunedau cydlynus – fel uchod** Trwy sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cynnal eu cysylltiadau â'u teuluoedd, ffrindiau, addysg a gwasanaethau cymorth eraill, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan eu rhieni corfforaethol a'u gofalwyr
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – effaith niwtral

Bwriedir i'r Rhaglen gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant sy'n derbyn gofal ac mae'n allweddol i drawsnewid gwasanaethau'n ehangach a fydd o fudd i blant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Bydd y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yn y gwasanaethau cartrefi gofal i blant a'r gwasanaethau maethu yn gwneud elw i endidau corfforaethol n eu randdeiliaid, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau; a hyrwyddo datblygiad proffesiynol pellach i'r rheini sy'n darparu gofal.

Gall Llywodraeth Cymru gymryd camau i hyrwyddo hawliau plant, cydraddoldeb, a'r Gymraeg, ac i gryfhau ei chyfraniad at y nodau hyn. Gall Llywodraeth Cymru hefyd gymryd camau i osgoi, lleihau, neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol, megis y risg o leoliadau annigonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, colli arbenigedd a buddsoddiad gan rai darparwyr er elw, a'r tarfu posibl ar gyfer rhai plant a gofalwyr a allai orfod newid eu lleoliadau neu ddarparwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio osgoi, lleihau neu liniaru'r effeithiau negyddol hyn drwy roi dull gweithredu gofalus, fesul cam ar waith, drwy ddarparu cymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol a darparwyr, drwy fonitro a gwerthuso cynnydd ac effaith y ddeddfwriaeth a'r polisi a thrwy ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill drwy gydol y broses.

Mae dogfennau a gweithdai amrywiol yn cael eu cynllunio i gyfleu bwriad a disgwyliadau'r rhaglen a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a bod y Llywodraeth yn ymgynghori â nhw, i sicrhau bod gan awdurdodau lleol a'u partneriaid yr arweiniad a'r cymorth cywir i gael mynediad at y cyllid a'r gwasanaethau sydd eu hangen, ac i helpu ein partneriaid i bennu unrhyw feysydd i'w gwella.

### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd rhaglen o waith monitro a gwerthuso yn sail i gyflawni hyn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy waith y Bwrdd Rhaglen Dileu Elw. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a gwerthuso gweithrediad.

Bydd angen i unrhyw werthusiad mwy ffurfiol ganolbwyntio ar y graddau y mae'r ymrwymiad wedi cyfrannu at gyflawni'r newid ar draws yr ystod o ganlyniadau allweddol

lle'r ydym yn disgwyl iddo wneud gwahaniaeth. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn cynnwys gwella'r gwaith o gynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gwella sefydlogrwydd lleoliadau a sicrhau y gellir lleoli plant yn lleol mewn lleoliad sy'n diwallu eu hanghenion orau. Byddai'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu yng Nghymru, a rôl partneriaid allweddol yn cyflawni ei hamcanion, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau eraill. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnwys y gwerthusiad a'r adolygiad dros y misoedd nesaf.

Bydd y data gweinyddol mwyaf perthnasol a gesglir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn cael eu defnyddio wrth fonitro a gwerthuso'r ddeddfwriaeth. Yn bwysig, bydd hyn yn cynnwys ystod o wybodaeth a gesglir gan awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant am gyfansoddiad a digonolrwydd y farchnad gofal cymdeithasol plant, sefydlogrwydd y farchnad, canlyniadau arolygiadau a gorfodi.

Bydd swyddogion yn adolygu ac yn gwerthuso'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r asesiad effaith hwn wrth i'r darpariaethau ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru gael eu rhoi ar waith i nodi a yw'r effeithiau wedi dwyn ffrwyth, ac unrhyw effeithiau anfwriadol a chamau gweithredu dilynol. Bydd yr adolygiad yn ystyried barn ar draws y sector gan gynnwys plant a grwpiau cynrychioliadol, a phartneriaid eraill. Bydd hyn yn ei dro yn llywio tystiolaeth i gefnogi asesiadau effaith sy'n ymwneud â'r Rhaglen hon yn y dyfodol, ac yn darparu sail resymegol a dull gweithredu ar gyfer unrhyw newidiadau polisi pellach. Wrth i'r manylion sylfaenol ddatblygu o ran gweithredu'r Bil, bydd yr asesiadau effaith penodol yn cael eu hailadrodd os bydd angen. Mae gwaith i nodi'r effaith ar y system gyfiawnder wedi'i gynnal a bydd yn cael ei ailadrodd os cyflwynir unrhyw welliannau i'r Bil yn ystod y cyfnod diwygio a allai effeithio ar y system gyfiawnder. (Mae crynodeb o'r effeithiau a ddisgwylir ar hyn o bryd ar y system gyfiawnder wedi'i gynnwys ym Mhennod 9 y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, yn nhudalennau 140-1). Mae asesiad sgrinio'r effaith o ran data wedi'i gwblhau hefyd, yn ogystal ag asesiad drafft llawn o'r effaith ar ddiogelu data. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r manylion sylfaenol ddatblygu ymhellach o ran gweithredu'r prosesau a bennir yn y Bil. Mae'r meysydd allweddol a nodwyd lle y daw ystyriaethau diogelu data i'r amlwg yn ymwneud â'r darpariaethau ynghylch lleoliadau atodol (sef y broses pan fydd angen i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau i Weinidogion Cymru er mwyn gallu lleoli plant mewn lleoliadau newydd gyda darparwyr er elw presennol). Maent hefyd yn ymwneud â'r gofynion newydd i ystyried a yw taliadau a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau nad ydynt yn rhai awdurdodau lleol yn rhesymol neu'n gymesur wrth benderfynu a ydynt yn addas i gael eu cofrestru. Bydd y ddau faes hyn yn cynnwys rhannu data rhwng sefydliadau, ac felly maent wedi'u cynnwys yn yr asesiad. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod data yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio'n briodol, ac i leihau unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn.